GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Public Health Wales

**Y Rhaglen Heintiau Cysylltiedig â Gofal Iechyd, Ymwrthedd Gwrthficrobaidd a Rhagnodi**

# Ymwrthedd Gwrthficrobaidd mewn Colifformau Wrinol yng Nghymru 2016-2022



Fersiwn 1

Cyhoeddwyd: 04/07/2023

Gellir gweld y Rhaglen Heintiau Cysylltiedig â Gofal Iechyd, Ymwrthedd i Wrthfiotigau a Rhagnodi (HARP) drwy fynd i wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn: https://icc.gig.cymru/

Cyhoeddwyd gan Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru, Rhif 2 Cwr y Ddinas, Stryd Tyndall, Caerdydd CF10 4BZ

Cyhoeddwyd 4 Gorffennaf 2023, Fersiwn 1

## Diolchiadau

Mieko Yasunishi (Gwybodeg PHW), Dr Lim Jones a Dr Mandy Wootton (SACU, PHW)

## Awduron yr Adroddiad

Maggie Heginbothom, Siân Boots, Daryn Sutton, Meryl Davies a Robin Howe ar ran Rhaglen HARP

## Cyfeiriwch at y ddogfen hon fel:

Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru: Ymwrthedd Gwrthfacterol mewn Meithriniadau Gwaed yng Nghymru 2016-2022

## Dylid cyfeirio ceisiadau am ddata ac ymholiadau at:

Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

Rhaglen HARP

4ydd Llawr, Rhif 2 Cwr y Ddinas

Stryd Tyndall

Caerdydd CF10 4BZ

**E-bost:** harp@wales.nhs.uk

# Cynnwys

Diolchiadau ........ 1
Awduron yr Adroddiad ........ 1
Cyfeiriwch at y ddogfen hon fel: ........ 1
Dylid cyfeirio ceisiadau am ddata ac ymholiadau at: ........ 1
Cynnwys ........ 2
Cyflwyniad ........ 3
Pwyntiau Allweddol o Ddiddordeb ........ 3
Methodoleg ........ 4
Data ar ymwrthedd ........ 4
Ffynonellau Data ........ 4
Grwpiau Gwrthficrobaidd ........ 4
Organebau ........ 4
*Escherichia coli* ........ 5
*E. coli* o samplau wrin cleifion mewnol (n = 9,784 yn 2022) ........ 5
*E. coli* o samplau wrin cleifion allanol (n = 3,808 yn 2022) ........ 7
*E. coli* o samplau wrin cymunedol (n = 58,407 yn 2022) ........ 9
Colifformau nad ydynt yn gysylltiedig ag *Escherichia coli* ........ 11
Dim-ECOL o samplau wrin cleifion mewnol (n = 5,438 yn 2022) ........ 11
Dim-ECOL o samplau wrin cleifion allanol (n = 1,838 yn 2022) ........ 13
Dim-ECOL o samplau wrin cymunedol (n = 17,441 yn 2022) ........ 15
Dolenni defnyddiol: ........ 17

*Bydd fersiwn Gymraeg o'r graffiau yn dilyn cyn gynted â phosibl*

## Cyflwyniad

Yn 2014, cafodd Arglwydd O'Neill ei gomisiynu gan Brif Weinidog y DU i adolygu effaith fyd-eang ymwrthedd gwrthficrobaidd. Amcangyfrifodd erbyn 2050, y byddai 10 miliwn o fywydau bob blwyddyn a gwerth cronnol o 100 triliwn o ddoleri'r UD o allbwn economaidd mewn perygl o ganlyniad i'r cynnydd mewn heintiau sy'n ymwrthod cyffuriau pe na ddaethpwyd o hyd i atebion rhagweithiol nawr er mwyn arafu'r cynnydd yn yr heintiau hynny.

Mewn ymateb i adroddiad ac argymhellion Arglwydd O'Neill, ym mis Ionawr 2019, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei gweledigaeth 20 mlynedd ar gyfer ymwrthedd gwrthficrobaidd, a'i chynllun gweithredu cenedlaethol pum mlynedd i fynd i'r afael ag ymwrthedd gwrthficrobaidd. Y weledigaeth yw bod rhanddeiliaid ar lefelau lleol, cenedlaethol a byd-eang gyda'i gilydd yn atgyfnerthu polisïau ac arferion, yn gwella gwaith ymchwil a gwyliadwriaeth, ac yn datblygu trefniadau rheoleiddio effeithiol i gyfyngu ar ymwrthedd a'i reoli.

Mae ymwrthedd gwrthficrobaidd yn broblem gynyddol yng Nghymru ac mae eisoes wedi arwain at nifer bach o heintiau anodd i'w trin, gan arwain at achosion o therapi yn methu a chymhlethdodau posibl. Mae triniaethau ar gyfer y rhan fwyaf o heintiau yn dechrau mewn ffordd empirig cyn bod y rhagdueddiadau gwrthficrobaidd yn hysbys. Un broblem benodol pan fydd ymwrthedd gwrthficrobaidd yn lledaenu yw ei bod hi'n dod yn anos dewis therapi empirig a fydd yn gweithredu mewn modd dibynadwy.

Nod yr adroddiad hwn gan dîm HARP yn Iechyd Cyhoeddus Cymru yw cyflwyno data gwyliadwriaeth y gellir eu defnyddio i ddylunio canllawiau therapi empirig, ac i olrhain tueddiadau ymwrthedd gwrthficrobaidd yng Nghymru.

## Pwyntiau Allweddol o Ddiddordeb

***Escherichia coli*** (yr achos mwyaf cyffredin o heintiau'r llwybr wrinol yng Nghymru)

- Mae ymwrthedd i co-amoxiclav wedi cynyddu'n sylweddol mewn *E. coli* o samplau wrin rhwng 2016 a 2021.
- Bu gostyngiad sylweddol yn y gyfradd ymwrthedd i trimethoprim mewn *E. coli* o samplau wrin rhwng 2016 a 2022; gallai hyn fod yn gysylltiedig â'r ffaith bod trimethoprim yn cael ei ddefnyddio llai i drin heintiau'r llwybr wrinol (UTI).
- Yn gyffredinol, mae ymwrthedd i fflworocwinolon a nitrofurantoin wedi gostwng ar draws y lleoliadau yng Nghymru.

**Colifformau nad ydynt yn gysylltiedig ag *Escherichia coli* (dim-ECOL)**

- Caiff data ar gyfer colifformau nad ydynt yn gysylltiedig ag *Escherichia coli* eu cyflwyno yn ail ran yr adroddiad hwn ac maent yn dangos newidiadau tebyg o ran tueddiadau ymwrthedd ar gyfer co-amoxiclav a trimethoprim ag *E. coli*.

# Methodoleg

## Data ar ymwrthedd

### Ffynonellau Data

Daw'r data ar brofion rhagdueddiadau gwrthficrobaidd o system DataStore Iechyd Cyhoeddus Cymru.

### Grwpiau Gwrthficrobaidd

Yn 2012/2013, rhoddwyd methodoleg Pwyllgor Ewrop ar Brofion Rhagdueddiadau Gwrthficrobaidd (EUCAST) ar gyfer profion rhagdueddiadau gwrthficrobaidd (AST) ar waith yn yr holl labordai yng Nghymru (https://eucast.org/clinical_breakpoints).

### Organebau


Mae'r organebau wrinol wedi'u rhannu'n ddau grŵp yn yr adroddiad hwn, sef (1) *Escherichia coli* a (2) dim-ECOL. Roedd y grŵp dim-ECOL yn cynnwys:

- *Citrobacter* spp.
- Colifform
- *Cronobacter* spp.
- *Enterobacter* spp.
- *Escherichia* spp.
- *Hafnia* spp.
- *Klebsiella* spp.
- *Kluyvera* spp.
- *Leclercia* spp.
- *Morganella* spp.
- *Pantoea* spp.
- *Proteus* spp.
- *Providencia* spp.
- *Rahnella* spp.
- *Raoultella* spp.
- *Salmonella* spp.
- *Serratia* spp.
- *Yersinia* spp.

# *Escherichia coli*

## *E. coli* o samplau wrin cleifion mewnol (n = 9,784 yn 2022)

Mae patrymau rhagdueddiadau Cymru gyfan (**S/I/R**) ar gyfer *E. coli* o samplau wrin cleifion mewnol yn 2022 i'w gweld yn **Ffigur 1**. Mae'r tueddiadau yn y cyfraddau ymwrthedd ar gyfer y cyfnod rhwng 2016 a 2022 i'w gweld yn **Ffigur 2**.





| | 3GC | AMO | COA | FOS | FQ | NIT | PIV | TRI |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| %R | 13.1 | 58.2 | 44.6 | 1.6 | 15.8 | 3.1 | 5.3 | 37.5 |
| %S | 86.9 | 41.8 | 55.4 | 98.4 | 84.2 | 96.9 | 94.7 | 62.5 |

Key: 3GC = resistance to ceftazidime &/or cefotaxime, ceftriaxone, cefpodoxime, AMO = amoxicillin, COA = co-amoxiclav, FOS = fosfomycin, FQ = ciprofloxacin &/or levofloxacin, or norfloxacin, NIT = nitrofurantoin, PIV = pivmecillinam, TRI = trimethoprim

**Ffigur 1: Patrymau rhagdueddiadau Cymru gyfan ar gyfer *E. coli* o samplau wrin cleifion mewnol (2022)**

### Yr hyn y mae'r data yn ei ddangos

- Roedd y gyfradd ymwrthedd i geffalosporin trydedd genhedlaeth, sef **13.1%** [12.5, 13.8] yn gymharol isel.
- Mae ymwrthedd i amoxicillin yn parhau'n uchel, sef **58.2%** [57.2, 59.2].
- Roedd cyfradd ymwrthedd o **44.6%** [43.6, 45.5] i co-amoxiclav.
- Roedd y gyfradd ymwrthedd i fflworocwinolon, sef **15.8%** [15.1, 16.6] yn gymharol isel.
- Roedd cyfradd ymwrthedd o **37.5%** [36.5, 38.5] i trimethoprim.
- Roedd y gyfradd ymwrthedd i fosfomycin, nitrofurantoin a pivmecillinam yn llai na **10%**.




| | 3GC | AMO | COA | FOS | FQ | NIT | PIV | TRI |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2016 (n = 13,789) | 12.0 | 63.5 | 24.8 | 4.1 | 18.6 | 4.8 | 7.4 | 42.8 |
| 2017 (n = 13,648) | 11.6 | 62.8 | 26.5 | 3.8 | 17.5 | 4.5 | 8.1 | 42.2 |
| 2018 (n = 12,718) | 11.7 | 61.4 | 33.3 | 2.6 | 17.9 | 4.8 | 7.8 | 42.2 |
| 2019 (n = 11,473) | 12.4 | 60.5 | 36.0 | 2.2 | 18.0 | 5.1 | 9.9 | 40.6 |
| 2020 (n = 9,773) | 12.7 | 61.5 | 41.6 | 0.9 | 17.9 | 4.0 | 8.6 | 39.9 |
| 2021 (n = 9,722) | 12.3 | 59.2 | 44.9 | 1.4 | 16.5 | 3.7 | 6.5 | 37.7 |
| 2022 (n = 9,784) | 13.1 | 58.2 | 44.6 | 1.6 | 15.8 | 3.1 | 5.3 | 37.5 |

Key: 3GC = resistance to ceftazidime &/or cefotaxime, ceftriaxone, cefpodoxime, AMO = amoxicillin, COA = co-amoxiclav, FOS = fosfomycin, FQ = ciprofloxacin &/or levofloxacin, or norfloxacin, NIT = nitrofurantoin, PIV = pivmecillinam, TRI = trimethoprim

**Ffigur 2: Cyfraddau ymwrthedd gwrthficrobaidd Cymru gyfan ar gyfer *E. coli* o samplau wrin cleifion mewnol (2016 i 2022)**

## Yr hyn y mae'r data yn ei ddangos

- Ni fu unrhyw newid sylweddol yn y gyfradd ymwrthedd ar gyfer ceffalosporinau trydedd genhedlaeth.
- Bu gostyngiad ystadegol arwyddocaol yn y gyfradd ymwrthedd i amoxicillin rhwng 2016 a 2022, ond mae'r gyfradd ymwrthedd yn 2022, sef **58.2%**, yn parhau'n uchel.
- Bu cynnydd ystadegol arwyddocaol yn y gyfradd ymwrthedd i co-amoxiclav rhwng 2016 a 2021, ond roedd yn sefydlog yn 2022 ar gyfradd o **44.6%**.
- Caiff y data ar gyfer fosfomycin a pivmecillinam ar gyfer 2016-2019 eu cyflwyno ar ffurf bariau rhesog yn y graff, sy'n dangos bod <80% o achosion ynysig wedi cael eu profi yn erbyn y cyfryngau hyn. Mae hyn yn awgrymu dull profi dethol, ac yn nodi y dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r data.
- Ymddengys fod tuedd bach ar i lawr o ran cyfraddau ymwrthedd yn y grŵp fflworocwinolon a nitrofurantoin.
- Bu gostyngiad ystadegol arwyddocaol yn y gyfradd ymwrthedd i trimethoprim rhwng 2016 a 2022, sydd fwy na thebyg yn gysylltiedig â newidiadau i'r canllawiau ar gyfer trin UTI.

## *E. coli* o samplau wrin cleifion allanol (n = 3,808 yn 2022)

Mae patrymau rhagdueddiadau Cymru gyfan (**S/I/R**) ar gyfer *E. coli* o samplau wrin cleifion allanol yn 2022 i'w gweld yn **Ffigur 3**. Mae'r tueddiadau yn y cyfraddau ymwrthedd ar gyfer y cyfnod rhwng 2016 a 2022 i'w gweld yn **Ffigur 4**.





| | 3GC | AMO | COA | FOS | FQ | NIT | PIV | TRI |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| %R | 9.2 | 51.7 | 38.8 | 1.2 | 13.4 | 3.0 | 3.9 | 31.6 |
| %S | 90.8 | 48.3 | 61.2 | 98.8 | 86.6 | 97.0 | 96.1 | 68.4 |

Key: 3GC = resistance to ceftazidime &/or cefotaxime, ceftriaxone, cefpodoxime, AMO = amoxicillin, COA = co-amoxiclav, FOS = fosfomycin, FQ = ciprofloxacin &/or levofloxacin, or norfloxacin, NIT = nitrofurantoin, PIV = pivmecillinam, TRI = trimethoprim

**Ffigur 3: Patrymau rhagdueddiadau Cymru gyfan ar gyfer *E. coli* o samplau wrin cleifion allanol (2022)**

## Yr hyn y mae'r data yn ei ddangos

- Roedd y gyfradd ymwrthedd i geffalosporin trydedd genhedlaeth, sef **9.2%** [8.3, 10.1] yn gymharol isel.
- Mae ymwrthedd i amoxicillin yn parhau'n uchel, sef **51.7%** [50.1, 53.3].
- Roedd cyfradd ymwrthedd o **38.8%** [37.2, 40.3] i co-amoxiclav.
- Roedd y gyfradd ymwrthedd i fflworocwinolon, sef **13.4%** [12.4, 14.6] yn gymharol isel.
- Roedd cyfradd ymwrthedd o **31.6%** [30.1, 33.1] i trimethoprim.
- Roedd y gyfradd ymwrthedd i fosfomycin, nitrofurantoin a pivmecillinam yn llai na **5%**.




| | 3GC | AMO | COA | FOS | FQ | NIT | PIV | TRI |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2016 (n = 5,828) | 9.1 | 56.4 | 19.9 | 4.2 | 14.7 | 4.2 | 7.6 | 39.4 |
| 2017 (n = 5,528) | 9.2 | 57.1 | 20.3 | 3.9 | 15.4 | 4.0 | 7.8 | 38.6 |
| 2018 (n = 5,331) | 8.4 | 55.6 | 28.0 | 2.6 | 14.3 | 3.9 | 7.1 | 36.3 |
| 2019 (n = 4,799) | 10.0 | 57.7 | 30.3 | 2.2 | 15.3 | 4.5 | 8.5 | 36.6 |
| 2020 (n = 3,332) | 9.9 | 58.9 | 37.1 | 1.1 | 16.7 | 4.4 | 7.7 | 34.9 |
| 2021 (n = 3,600) | 9.2 | 57.0 | 40.5 | 1.2 | 14.2 | 3.8 | 6.2 | 33.8 |
| 2022 (n = 3,808) | 9.2 | 51.7 | 38.8 | 1.2 | 13.4 | 3.0 | 3.9 | 31.6 |

Key: 3GC = resistance to ceftazidime &/or cefotaxime, ceftriaxone, cefpodoxime, AMO = amoxicillin, COA = co-amoxiclav, FOS = fosfomycin, FQ = ciprofloxacin &/or levofloxacin, or norfloxacin, NIT = nitrofurantoin, PIV = pivmecillinam, TRI = trimethoprim


**Ffigur 4: Cyfraddau ymwrthedd gwrthficrobaidd Cymru gyfan ar gyfer *E. coli* o samplau wrin cleifion allanol (2016 i 2022)**

## Yr hyn y mae'r data yn ei ddangos

- Ni fu unrhyw newid sylweddol yn y gyfradd ymwrthedd ar gyfer ceffalosporinau trydedd genhedlaeth.
- Bu gostyngiad ystadegol arwyddocaol yn y gyfradd ymwrthedd i amoxicillin rhwng 2016 a 2022, ond mae'r gyfradd ymwrthedd yn 2022, sef **51.7%**, yn parhau'n uchel.
- Bu cynnydd ystadegol arwyddocaol yn y gyfradd ymwrthedd i co-amoxiclav rhwng 2016 a 2021, ond roedd yn sefydlog yn 2022 ar gyfradd o **38.8%**.
- Caiff y data ar gyfer amoxicillin, fosfomycin a pivmecillinam eu cyflwyno ar ffurf bariau rhesog yn y graff, sy'n dangos bod <80% o achosion ynysig wedi cael eu profi yn erbyn y cyfryngau hyn. Mae hyn yn awgrymu dull profi dethol, ac yn nodi y dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r data.
- Ni fu unrhyw newid sylweddol yn y gyfradd ymwrthedd ar gyfer y grŵp fflworocwinolon a nitrofurantoin.
- Bu gostyngiad ystadegol arwyddocaol yn y gyfradd ymwrthedd i trimethoprim rhwng 2016 a 2022, sydd fwy na thebyg yn gysylltiedig â newidiadau i'r canllawiau ar gyfer trin UTI.

## *E. coli* o samplau wrin cymunedol (n = 58,407 yn 2022)

Mae patrymau rhagdueddiadau Cymru gyfan (**S/I/R**) ar gyfer *E. coli* o samplau wrin cymunedol yn 2022 i'w gweld yn **Ffigur 5**. Mae'r tueddiadau yn y cyfraddau ymwrthedd ar gyfer y cyfnod rhwng 2016 a 2022 i'w gweld yn **Ffigur 6**.





| | 3GC | AMO | COA | FOS | FQ | NIT | PIV | TRI |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| %R | 6.7 | 48.1 | 34.5 | 0.9 | 8.1 | 1.7 | 3.4 | 28.2 |
| %S | 93.3 | 51.9 | 65.5 | 99.1 | 91.9 | 98.3 | 96.6 | 71.8 |

Key: 3GC = resistance to ceftazidime &/or cefotaxime, ceftriaxone, cefpodoxime, AMO = amoxicillin, COA = co-amoxiclav, FOS = fosfomycin, FQ = ciprofloxacin &/or levofloxacin, or norfloxacin, NIT = nitrofurantoin, PIV = pivmecillinam, TRI = trimethoprim

**Ffigur 5: Patrymau rhagdueddiadau Cymru gyfan ar gyfer *E. coli* o samplau wrin cymunedol (2022)**

## Yr hyn y mae'r data yn ei ddangos

- Roedd y gyfradd ymwrthedd i geffalosporin trydedd genhedlaeth, sef **6.7%** [6.5, 6.9] yn gymharol isel.
- Caiff data ar gyfer amoxicillin eu cyflwyno ar ffurf bar rhesog sy'n awgrymu bod <80% o'r achosion ynysig wedi cael eu profi yn erbyn y cyfrwng hwn: Mae hyn yn awgrymu dull profi dethol, a dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r data hyn.
- Roedd cyfradd ymwrthedd o **34.5%** [34.1, 34.9] i co-amoxiclav.
- Roedd y gyfradd ymwrthedd i fflworocwinolon, sef **8.1%** [7.9, 8.3] yn gymharol isel.
- Roedd cyfradd ymwrthedd o **28.2%** [27.9, 28.6] i trimethoprim.
- Roedd y gyfradd ymwrthedd i fosfomycin, nitrofurantoin a pivmecillinam yn llai na **5%**.




| | 3GC | AMO | COA | FOS | FQ | NIT | PIV | TRI |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2016 (n = 68,511) | 7.0 | 53.1 | 14.8 | 3.2 | 10.7 | 2.8 | 8.1 | 36.5 |
| 2017 (n = 69,987) | 6.9 | 52.8 | 17.6 | 3.2 | 10.5 | 2.9 | 6.5 | 36.1 |
| 2018 (n = 69,622) | 6.9 | 51.9 | 23.3 | 2.0 | 9.9 | 2.7 | 4.3 | 34.7 |
| 2019 (n = 66,531) | 6.6 | 55.8 | 24.9 | 1.2 | 9.8 | 2.7 | 6.3 | 32.8 |
| 2020 (n = 52,557) | 7.2 | 58.7 | 32.3 | 0.7 | 9.4 | 2.4 | 5.3 | 31.6 |
| 2021 (n = 55,795) | 6.3 | 55.7 | 36.1 | 0.8 | 8.8 | 2.0 | 4.0 | 29.0 |
| 2022 (n = 58,407) | 6.7 | 48.1 | 34.5 | 0.9 | 8.1 | 1.7 | 3.4 | 28.2 |

Key: 3GC = resistance to ceftazidime &/or cefotaxime, ceftriaxone, cefpodoxime, AMO = amoxicillin, COA = co-amoxiclav, FOS = fosfomycin, FQ = ciprofloxacin &/or levofloxacin, or norfloxacin, NIT = nitrofurantoin, PIV = pivmecillinam, TRI = trimethoprim

**Ffigur 6: Cyfraddau ymwrthedd gwrthficrobaidd Cymru gyfan ar gyfer *E. coli* o samplau wrin cymunedol (2016 i 2022)**


## Yr hyn y mae'r data yn ei ddangos

- Ni fu unrhyw newid sylweddol yn y gyfradd ymwrthedd ar gyfer ceffalosporinau trydedd genhedlaeth.
- Bu cynnydd ystadegol arwyddocaol yn y gyfradd ymwrthedd i co-amoxiclav rhwng 2016 a 2021, ond roedd yn sefydlog yn 2022 ar gyfradd o **34.5%**.
- Caiff y data ar gyfer amoxicillin, fosfomycin a pivmecillinam eu cyflwyno ar ffurf bariau rhesog yn y graff ar gyfer rhai blynyddoedd, sy'n dangos bod <80% o achosion ynysig wedi cael eu profi yn erbyn y cyfryngau hyn. Mae hyn yn awgrymu dull profi dethol, ac yn nodi y dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r data.
- Ymddengys fod tuedd bach ar i lawr o ran cyfraddau ymwrthedd yn y grŵp fflworocwinolon a nitrofurantoin.
- Bu gostyngiad ystadegol arwyddocaol yn y gyfradd ymwrthedd i trimethoprim rhwng 2016 a 2022, sydd fwy na thebyg yn gysylltiedig â newidiadau i'r canllawiau ar gyfer trin UTI.

# Colifformau nad ydynt yn gysylltiedig ag *Escherichia coli*

## Dim-ECOL o samplau wrin cleifion mewnol (n = 5,438 yn 2022)

Mae patrymau rhagdueddiadau **Cymru gyfan** (**S/I/R**) ar gyfer Dim-ECOL o samplau wrin cleifion mewnol yn 2022 i'w gweld yn **Ffigur 10**. Mae'r tueddiadau yn y cyfraddau ymwrthedd ar gyfer y cyfnod rhwng 2016 a 2022 i'w gweld yn **Ffigur 11**.





| | 3GC | AMO | COA | FQ | PIV | TRI |
|---|---|---|---|---|---|---|
| %R | 17.7 | 79.0 | 38.7 | 13.4 | 10.7 | 42.1 |
| %S | 82.3 | 21.0 | 61.3 | 86.6 | 89.3 | 57.9 |

Key: 3GC = resistance to ceftazidime &/or cefotaxime, ceftriaxone, cefpodoxime, AMO = amoxicillin, COA = co-amoxiclav, FQ = ciprofloxacin &/or levofloxacin, or norfloxacin, PIV = pivmecillinam, TRI = trimethoprim

**Ffigur 10: Patrymau rhagdueddiadau Cymru gyfan ar gyfer Dim-ECOL o samplau wrin cleifion mewnol (2022)**

### Yr hyn y mae'r data yn ei ddangos

- Roedd cyfradd ymwrthedd o **17.7%** [16.7, 18.7] i geffalosporin trydedd genhedlaeth.
- Mae ymwrthedd i amoxicillin yn parhau'n uchel, sef **79.0%** [77.9, 80.1].
- Roedd cyfradd ymwrthedd o **38.7%** [37.4, 40.0] i co-amoxiclav.
- Roedd y gyfradd ymwrthedd i fflworocwinolon, sef **13.4%** [12.6, 14.4] yn gymharol isel.
- Roedd y gyfradd ymwrthedd i pivmecillinam, sef **10.7%** [9.9, 11.6] yn gymharol isel.
- Roedd cyfradd ymwrthedd o **42.1%** [40.8, 43.4] i trimethoprim.




| | 3GC | AMO | COA | FQ | PIV | TRI |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2016 (n = 5,908) | 11.7 | 75.1 | 26.7 | 9.2 | 21.8 | 40.6 |
| 2017 (n = 6,052) | 11.1 | 76.6 | 27.5 | 9.1 | 23.3 | 41.0 |
| 2018 (n = 5,588) | 12.3 | 77.5 | 29.7 | 11.1 | 22.3 | 39.6 |
| 2019 (n = 5,169) | 14.7 | 79.1 | 33.4 | 13.1 | 17.6 | 40.7 |
| 2020 (n = 4,723) | 16.0 | 80.3 | 37.8 | 13.4 | 11.5 | 41.8 |
| 2021 (n = 5,011) | 14.5 | 79.3 | 36.1 | 11.5 | 12.1 | 39.9 |
| 2022 (n = 5,438) | 17.7 | 79.0 | 38.7 | 13.4 | 10.7 | 42.1 |

Key: 3GC = resistance to ceftazidime &/or cefotaxime, ceftriaxone, cefpodoxime, AMO = amoxicillin, COA = co-amoxiclav, FQ = ciprofloxacin &/or levofloxacin, or norfloxacin, PIV = pivmecillinam, TRI = trimethoprim


**Ffigur 11: Cyfraddau ymwrthedd gwrthficrobaidd Cymru gyfan ar gyfer Dim-ECOL o samplau wrin cleifion mewnol (2016 i 2022)**

## Yr hyn y mae'r data yn ei ddangos

- Bu tuedd ar i fyny yn y gyfradd ymwrthedd i geffalosporin trydedd genhedlaeth i **17.7%** [16.7, 18.7] yn 2022.
- Mae ymwrthedd i amoxicillin yn parhau'n uchel yn 2022, sef **79.0%** [77.9, 80.1]
- Bu cynnydd ystadegol arwyddocaol yn y gyfradd ymwrthedd i co-amoxiclav rhwng 2016 a 2020, ond roedd yn sefydlog yn 2022 ar gyfradd o **38.7%**[37.4, 40.0].
- Prin fu'r newid yn y cyfraddau ymwrthedd i fflworocwinolon rhwng 2019 a 2022.
- Caiff y data ar gyfer pivmecillinam ar gyfer 2016-2020 eu cyflwyno ar ffurf bariau rhesog yn y graff, sy'n dangos bod <80% o achosion ynysig wedi cael eu profi yn erbyn y cyfrwng hwn. Mae hyn yn awgrymu dull profi dethol, ac yn nodi y dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r data.
- Ni fu unrhyw newid yn y gyfradd ymwrthedd i trimethoprim rhwng 2016 a 2022.

# Dim-ECOL o samplau wrin cleifion allanol (n = 1,838 yn 2022)

Mae patrymau rhagdueddiadau **Cymru gyfan** (**S/I/R**) ar gyfer Dim-ECOL o samplau wrin cleifion allanol yn 2022 i'w gweld yn **Ffigur 12**. Mae'r tueddiadau yn y cyfraddau ymwrthedd ar gyfer y cyfnod rhwng 2016 a 2022 i'w gweld yn **Ffigur 13**.





| | 3GC | AMO | COA | FQ | PIV | TRI |
|---|---|---|---|---|---|---|
| %R | 12.6 | 83.5 | 34.0 | 8.5 | 9.0 | 31.0 |
| %S | 87.4 | 16.5 | 66.0 | 91.5 | 91.0 | 69.0 |

Key: 3GC = resistance to ceftazidime &/or cefotaxime, ceftriaxone, cefpodoxime, AMO = amoxicillin, COA = co-amoxiclav, FQ = ciprofloxacin &/or levofloxacin, PIV = pivmecillinam, TRI = trimethoprim

**Ffigur 12: Patrymau rhagdueddiadau Cymru gyfan ar gyfer Dim-ECOL o samplau wrin cleifion allanol (2022)**

## Yr hyn y mae'r data yn ei ddangos

- Roedd y gyfradd ymwrthedd i geffalosporin trydedd genhedlaeth, sef **12.6%** [11.1, 14.2] yn gymharol isel
- Mae ymwrthedd i amoxicillin yn parhau'n uchel, sef **83.5%** [81.7, 85.1]
- Roedd cyfradd ymwrthedd o **34.0%** [31.9, 36.2] i co-amoxiclav
- Roedd y gyfradd ymwrthedd i fflworocwinolon, sef **8.5%** [7.3, 9.9] yn gymharol isel
- Roedd y gyfradd ymwrthedd i pivmecillinam, sef **9.0%** [7.7, 10.4] yn gymharol isel
- Roedd cyfradd ymwrthedd o **31.0%** [29.0, 33.2] i trimethoprim




| | 3GC | AMO | COA | FQ | PIV | TRI |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2016 (n = 2,235) | 8.3 | 79.5 | 21.5 | 5.1 | 27.5 | 28.2 |
| 2017 (n = 2,014) | 8.3 | 81.3 | 24.8 | 5.7 | 22.0 | 31.6 |
| 2018 (n = 1,972) | 9.5 | 80.4 | 24.8 | 7.6 | 19.6 | 30.5 |
| 2019 (n = 1,818) | 10.0 | 85.4 | 28.9 | 8.5 | 12.7 | 30.9 |
| 2020 (n = 1,455) | 11.4 | 84.3 | 36.0 | 9.9 | 8.7 | 33.5 |
| 2021 (n = 1,721) | 10.7 | 81.9 | 33.3 | 7.8 | 9.9 | 31.2 |
| 2022 (n = 1,838) | 12.6 | 83.5 | 34.0 | 8.5 | 9.0 | 31.0 |

Key: 3GC = resistance to ceftazidime &/or cefotaxime, ceftriaxone, cefpodoxime, AMO = amoxicillin, COA = co-amoxiclav, FQ = ciprofloxacin &/or levofloxacin, or norfloxacin, PIV = pivmecillinam, TRI = trimethoprim


**Ffigur 13: Cyfraddau ymwrthedd gwrthficrobaidd Cymru gyfan ar gyfer Dim-ECOL o samplau wrin cleifion allanol (2016 i 2022)**

## Yr hyn y mae'r data yn ei ddangos

- Bu tuedd ar i fyny yn y gyfradd ymwrthedd i geffalosporin trydedd genhedlaeth i **12.6%** yn 2022.
- Mae ymwrthedd i amoxicillin yn parhau'n uchel yn 2022, sef **83.5%**.
- Bu cynnydd ystadegol arwyddocaol yn y gyfradd ymwrthedd i co-amoxiclav rhwng 2016 a 2020, ond roedd yn sefydlog yn 2022 ar gyfradd o **34.0%**.
- Prin fu'r newid yn y cyfraddau ymwrthedd i fflworocwinolon rhwng 2019 a 2022.
- Caiff y data ar gyfer amoxicillin a pivmecillinam ar gyfer 2016-2019 eu cyflwyno ar ffurf bariau rhesog yn y graff, sy'n dangos bod <80% o achosion ynysig wedi cael eu profi yn erbyn y cyfrwng hwn. Mae hyn yn awgrymu dull profi dethol, ac yn nodi y dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r data.
- Ni fu unrhyw newid yn y gyfradd ymwrthedd i trimethoprim rhwng 2016 a 2022.

# Dim-ECOL o samplau wrin cymunedol (n = 17,441 yn 2022)

Mae patrymau rhagdueddiadau **Cymru gyfan** (**S/I/R**) ar gyfer Dim-ECOL o samplau wrin cymunedol yn 2022 i'w gweld yn **Ffigur 14**. Mae'r tueddiadau yn y cyfraddau ymwrthedd ar gyfer y cyfnod rhwng 2016 a 2022 i'w gweld yn **Ffigur 15**.





| | 3GC | AMO | COA | FQ | PIV | TRI |
|---|---|---|---|---|---|---|
| %R | 7.8 | 79.7 | 29.9 | 5.8 | 7.8 | 27.5 |
| %S | 92.2 | 20.3 | 70.1 | 94.2 | 92.2 | 72.5 |

Key: 3GC = resistance to ceftazidime &/or cefotaxime, ceftriaxone, cefpodoxime, AMO = amoxicillin, COA = co-amoxiclav, FQ = ciprofloxacin &/or levofloxacin, or norfloxacin, PIV = pivmecillinam, TRI = trimethoprim

**Ffigur 14: Patrymau rhagdueddiadau Cymru gyfan ar gyfer Dim-ECOL o samplau wrin cymunedol (2022)**

## Yr hyn y mae'r data yn ei ddangos

- Roedd y gyfradd ymwrthedd i geffalosporin trydedd genhedlaeth, sef **7.8%** [7.4, 8.2] yn gymharol isel
- Caiff y data ar gyfer amoxicillin eu cyflwyno ar ffurf bar rhesog yn y graff, sy'n dangos bod <80% o achosion ynysig wedi cael eu profi yn erbyn y cyfryngau hyn. Mae hyn yn awgrymu dull profi dethol, ac yn nodi y dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r data.
- Roedd cyfradd ymwrthedd o **29.9%** [29.3, 30.6] i co-amoxiclav
- Roedd y gyfradd ymwrthedd i fflworocwinolon, sef **5.8%** [5.4, 6.1] yn gymharol isel
- Roedd y gyfradd ymwrthedd i pivmecillinam, sef **7.8%** [7.4, 8.2] yn gymharol isel
- Roedd cyfradd ymwrthedd o **27.5%** [26.8, 28.2] i trimethoprim




| | 3GC | AMO | COA | FQ | PIV | TRI |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2016 (n = 17,504) | 6.9 | 74.5 | 20.1 | 4.6 | 23.9 | 32.6 |
| 2017 (n = 18,991) | 7.0 | 76.0 | 21.5 | 5.1 | 19.1 | 33.2 |
| 2018 (n = 18,742) | 7.6 | 77.7 | 24.3 | 6.0 | 14.8 | 32.1 |
| 2019 (n = 17,085) | 7.6 | 83.5 | 26.9 | 6.5 | 11.8 | 30.2 |
| 2020 (n = 15,481) | 8.6 | 84.9 | 30.2 | 6.8 | 9.3 | 30.6 |
| 2021 (n = 16,598) | 7.9 | 80.7 | 30.1 | 5.9 | 8.5 | 28.2 |
| 2022 (n = 17,441) | 7.8 | 79.7 | 29.9 | 5.8 | 7.8 | 27.5 |

Key: 3GC = resistance to ceftazidime &/or cefotaxime, ceftriaxone, cefpodoxime, AMO = amoxicillin, COA = co-amoxiclav, FQ = ciprofloxacin &/or levofloxacin, or norfloxacin, PIV = pivmecillinam, TRI = trimethoprim

**Ffigur 15: Cyfraddau ymwrthedd gwrthficrobaidd Cymru gyfan ar gyfer Dim-ECOL o samplau wrin cymunedol (2016 i 2022)**

## Yr hyn y mae'r data yn ei ddangos

- Ni fu unrhyw newid sylweddol yn y gyfradd ymwrthedd i geffalosporin trydedd genhedlaeth rhwng 2016 a 2022.
- Caiff y data ar gyfer amoxicillin ar gyfer 2019-2022 a pivmecillinam ar gyfer 2016-2019 eu cyflwyno ar ffurf bariau rhesog yn y graff, sy'n dangos bod <2022% o achosion ynysig wedi cael eu profi yn erbyn y cyfryngau hyn. Mae hyn yn awgrymu dull profi dethol, ac yn nodi y dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r data.
- Bu cynnydd ystadegol arwyddocaol yn y gyfradd ymwrthedd i co-amoxiclav rhwng 2016 a 2020, ond roedd yn sefydlog yn 2022 ar gyfradd o **29.9%**.
- Prin fu'r newid yn y cyfraddau ymwrthedd i fflworocwinolon rhwng 2018 a 2022.
- Bu gostyngiad ystadegol arwyddocaol yn y gyfradd ymwrthedd i trimethoprim rhwng 2016 a 2022, sydd fwy na thebyg yn gysylltiedig â newidiadau i'r canllawiau ar gyfer trin UTI.

# Dolenni defnyddiol:

Adolygiad o Ymwrthedd Gwrthficrobaidd, Mai 2016
https://amr-review.org/

Strategaeth Ymwrthedd Gwrthficrobaidd y DU 2013-18
https://www.gov.uk/government/publications/uk-5-year-antimicrobial-resistance-strategy-2013-to-2018

Cynllun Cyflenwi Ymwrthedd Gwrthficrobaidd (Cymru) Law yn Llaw at Iechyd: Taclo ymwrthedd gwrthficrobaidd a gwella rhagnodi gwrthfiotigau.
http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/888/Antimicrobial%20Resistance%20Delivery%20Plan.pdf

Gweledigaeth 20 mlynedd y DU ar gyfer ymwrthedd gwrthficrobaidd
https://www.gov.uk/government/publications/uk-20-year-vision-for-antimicrobial-resistance

Ymwrthedd gwrthficrobaidd: Y DU yn lansio cynllun gweithredu 5 mlynedd a gweledigaeth 20 mlynedd https://www.gov.uk/government/news/antimicrobial-resistance-uk-launches-5-year-action-plan-and-20-year-vision

EUCAST EUROPEAN COMMITTEE ON ANTIMICROBIAL SUSCEPTIBILITY TESTING
European Society of Clinical Microbiology and Infectious Diseases

https://eucast.org/clinical_breakpoints